*Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2014 Rhif 2718 (Cy. 274) (C. 118)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Cychwyn Rhif 1) 2014

*Gwnaed - - - - 8 Hydref 2014*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 199(2) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

### Enwi a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Cychwyn Rhif 1) 2014.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

### Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 1 Tachwedd 2014

**2.** Y diwrnod penodedig ar gyfer dod â'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf i rym yw 1 Tachwedd 2014—

(a) adran 170 (Gwasanaeth mabwysiadu: trefniadau ar y cyd);

(b) adran 179 (Ymchwilio i gwynion am ofal cymdeithasol a gofal lliniarol a drefnir neu a ariennir yn breifat); ac

(c) adran 180 (Gwasanaethau eirioli annibynnol ar gyfer cwynion am ofal lliniarol a drefnir neu a ariennir yn breifat).

*Mark Drakeford*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

8 Hydref 2014

(**1**) 2014 dccc 4.

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Dyma'r gorchymyn cychwyn cyntaf a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("y Ddeddf").

Mae erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym adrannau 170, 179 a 180 o'r Ddeddf ar 1 Tachwedd 2014.

Mae adran 170 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru gyfarwyddo awdurdodau lleol i ymrwymo i drefniadau ar y cyd mewn perthynas â'u gwasanaethau mabwysiadu.

Mae adran 179 yn diwygio Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 drwy fewnosod Rhan 2A, Rhan 2B ac Atodlen 3A newydd.

Mae Rhan 2A yn darparu pwerau newydd i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ("OGCC") i ymchwilio i gwynion am fathau penodol o ofal cymdeithasol a gofal lliniarol. O dan Ran 2A caiff OGCC gymryd unrhyw gamau y mae'n barnu eu bod yn briodol gyda golwg ar ddatrys cwyn. Mae Rhan 2A hefyd yn darparu sut y mae rhaid i OGCC gynnal ymchwiliad a sut y caniateir i gŵyn gael ei gwneud. Mae Rhan 2A yn darparu bod rhaid i OGCC, ar ôl cynnal ymchwiliad, lunio adroddiad ac anfon copi o'r adroddiad at bersonau priodol. Mae Rhan 2A yn caniatáu i OGCC gyhoeddi'r adroddiad os yw'n barnu y byddai er budd y cyhoedd i wneud hynny.

Mae Atodlen 3A yn rhestru materion sydd wedi eu heithrio o'r darpariaethau yn Rhan 2A.

Mae Rhan 2B yn nodi'r amgylchiadau pan fydd rhaid i OGCC ymgynghori ag ombwdsmyn eraill. Mae Rhan 2B hefyd yn gwneud darpariaeth i ganiatáu i OGCC weithio ar y cyd a chydlafurio â Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg. Mae Rhan 2B yn gwneud darpariaeth ynghylch pryd y caniateir i wybodaeth gael ei datgelu a pha gyhoeddiadau sydd â braint absoliwt at ddiben hawliadau difenwi.

Mae adran 180 yn diwygio adran 187 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 ("Deddf 2006"). Mae adran 187 o Ddeddf 2006 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i drefnu ar gyfer darparu gwasanaethau eirioli annibynnol. Mae'r diwygiad yn estyn y diffiniad o wasanaethau eirioli annibynnol i wasanaethau sy'n darparu cynhorthwy i unigolion sy'n gwneud neu'n bwriadu gwneud cwyn o dan weithdrefn a weithredir gan ddarparwr gofal lliniarol annibynnol. Mae'r diwygiad hefyd yn estyn y diffiniad i wasanaethau sy'n darparu cynhorthwy i unigolion sy'n gwneud neu'n bwriadu gwneud cwyn i OGCC sy'n ymwneud â darparwr gofal lliniarol annibynnol.